Addysgu The Radicalisation of Bradley Manning yn Gyfrifol

Mae *The Radicalisation of Bradley Manning* yn ymwneud â bywyd Chelsea Manning. Cyhoeddwyd *The Radicalisation of Bradley Manning* yn 2012, a daeth Chelsea allan yn draws yn gyhoeddus yn 2013. Weithiau nid yw testun a bywyd person go iawn yn cyd-fynd â'i gilydd - sut rydyn ni'n siarad amdanyn nhw yn y presennol sy'n gwneud gwahaniaeth. Wrth siarad am Chelsea, defnyddiwch y rhagenw hi a cheisiwch osgoi ei chamenwi (defnyddio ei hen enw). Cofiwch mai Chelsea Manning fu Chelsea Manning erioed.

Ni fyddwn byth yn gwybod yn iawn pwy sydd yn ein hystafelloedd dosbarth a beth maent yn mynd drwyddo. Efallai y byddwch yn gweld y gallai'r testun hwn godi rhai pethau nad ydych yn siŵr sut i ddelio â nhw - byddwn yn rhannu rhai ffyrdd o gefnogi rhywun os bydd hynny'n codi, a rhai awgrymiadau bob dydd i helpu ar hyd y ffordd.

Mewn ymarferion:

- Fel rhan o'ch cofrestriad ar ddechrau'ch ymarfer, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys rhagenwau. Rydyn ni'n defnyddio rhagenwau pan rydyn ni'n siarad am rywun arall - "Mae siaced felen ganddi" neu "Mae ganddyn nhw gi brown."
    - Gall hyn ddod yn rhan o'ch trefn arferol os ydych chi'n gofyn i bobl gyflwyno eu henwau, eu rhagenwau a “sut maen nhw heddiw?” Er enghraifft: Cewch wybod rhagor am ragenwau yma.
- Gwnewch hi’n arfer da defnyddio iaith sy’n niwtral o ran rhywedd, felly ceisiwch osgoi grwpio myfyrwyr yn “fechgyn a merched” a’u grwpio mewn ffordd wahanol.
- Heriwch stereoteipiau rhywedd ac iaith sarhaus os yw'n digwydd, a sicrhewch fod eich gofod yn ddiogel i bob myfyriwr.
- Sicrhewch fod gennych rai adnoddau ymwybyddiaeth yn eich gofod ymarfer, ystyriwch roi baneri balchder bach yn eich ystafell hefyd os caniateir i chi.

Syniadau i'w harchwilio:

- Wrth weithio gyda darn fel *The Radicalisation of Bradley Manning*, ystyriwch pwy rydych chi am ei gastio yn y rôl honno - mae *The Radicalisation of Bradley Manning* yn ddarn ensemble, a gallwch archwilio hunaniaeth Chelsea gyda phwy rydych chi'n eu castio yn y rolau hynny.
- Beth ydych chi'n ei ddweud gyda'r dillad a'r gwisgoedd rydych chi'n rhoi eich actorion ynddynt? Gallwch archwilio dillad y fyddin, neu ddefnyddio dillad benywaidd traddodiadol, neu hyd yn oed anwybyddu hyn yn gyfan gwbl ac archwilio rhywbeth arall.
- Mae sawl shifft amser yn y ddrama, pa effaith mae'r rhain yn ei chael ar Chelsea a’i hunaniaeth?
- Pa effaith mae propiau, set, sain a goleuadau yn ei chael ar y darn?
- Wrth archwilio ac ymchwilio i gymeriadau, anogwch eich myfyrwyr i archwilio adnoddau diweddar o amgylch Chelsea, a chofiwch ddefnyddio'r rhagenw hi a cheisiwch gywiro hyn yn eich ymarferion.